



Cyfres Stori Duw

# Gwers 29

## Y Bregeth ar y Mynydd

### Mathew 5:1-16 . . . . .

#### **Nod:**

Dysgu sut mae Iesu am i'w bobl fyw mewn ffordd ymarferol.

#### **Adnodau:**

Mathew 5:1-16

#### **Cefndir:**

Roedd tyrfaoedd mawr yn dilyn Iesu o amgylch y wlad, i wrando arno'n pregethu ac i gael eu hiacháu ganddo (4:25). Ar gychwyn pennod 5 mae Iesu'n mynd i ben mynydd ac yn dechrau dysgu ei ddisgyblion (dydy'r 12 ddim wedi eu dewis eto, felly roedd yna llawer mwy yma) sut y dylent fyw fel dilynwyd iddo. Mae'r bregeth yma'n para tair pennod! Mae'n cynnwys dysgeidiaeth Iesu ar sut i fyw, fe wnawn ni edrych ar yr 14 adnod cyntaf yn unig – cânt eu hadnabod weithiau fel y 'Gwynfydau'.

#### **Gweithgaredd:**

Pwy ydwi i?

Cyn y wers bydd angen i chi feddwl am 10 swydd gwahanol, ee, dyn tân, dawnswraig, nyrs, bancwr, cogydd ayyb. Ysgrifennwch ddisgrifiad o bob un ar ddarnau unigol o bapur, eu rhifo, a'u rhoi i fyny o amgylch yr ystafell. ee 'rydw i weithiau yn gweithio drwy'r nos, ond byth yn gadael yr orsaf. Mae fy injan yn goch, rydw i'n ddewr iawn. Dydw i ddim ofn adeiladau tal, a rhaid i mi gadw'n heini.' (Dyn Tân)

Rhowch darn o bapur a beiro i bob un yn y

dosbarth a gofyn iddynt fynd o amgylch yn dyfalu beth yw'r swyddi o edrych ar y nodweddion. Ar ôl cyfnod o amser yr un gyda'r mwyaf o atebion cywir sy'n ennill. Gadewch i ni weld beth mae'r Beibl yn ei ddweud am nodweddion Cristnogion.

#### **Darllen yr Adnodau:**

Mathew 5 : 1- 16. Darllenwch chi'r darn i'r dosbarth, oni bai am adnodau 3- 10, dewiswch ddau i ddarllen bob un o'r gwynfydau, un i ddarllen "Gwyn eu byd..." a'r llall i ymateb "oherwydd..."

#### **Trafod yr hanes:**

Gofynnwch i'r dosbarth a ydynt erioed wedi clywed pregeth yn rhywle heblaw yn y capel? Yn ein hanes ni heddiw mae Iesu'n pregethu ar ben mynydd! Dim cael picnic oeddent ar ben y mynydd ond gwranddo ar Iesu'n dysgu ei ddilynwyd sut y dylent fyw fel Cristnogion da.

Gofynnwch i'r disgyblion wneud rhestr o'r rhinweddau sydd i'w cael yn adnodau 3-10. Cofiwch mai sôn am bethau ysbrydol mae'r Gwynfydau, nid agweddau llythrennol. Gallwch ysgrifennu'r geiriau ar gardiau i helpu'r dosbarth i ddilyn. Yna gofynnwch beth mae pob un o'r rhinweddau hyn yn ei olygu.

Ad 3. Tlawd yn yr Ysbryd – dydy hwn ddim yn ymwneud â thlodi materol, ond yn hytrach sylweddoli ein bod yn dlawd os nad ydym yn adnabod Iesu.

Ad 4. Galaru – nid galar fel tristwch

yw ystyr hyn, ond yn hytrach rhai sy'n sylweddoli eu bod yn bechaduriaid a bod hynny yn eu tristáu.

Ad 5. Addfwyn – golyga hyn bobl sy'n rheoli eu teimladau – ddim yn gwylltio, nac yn gas efo eraill, ond yn derbyn ewylllys Duw ym mhob sefyllfa.

Ad 6. Newynu a sychedu am gyfiawnder – mae hyn yn esbonio'i hun, pa fath o gyfiawnder mae'r bobl ifanc yn credu mae Iesu'n siarad amdano?

Ad 7. Trugarog – 'Merciful' yn Saesneg. Ydyw dangos trugaredd yn hawdd drwy'r amser?

Ad 8. Calon bur – sonia hwn am bobl sydd yn lân ar y tu mewn, oherwydd bod Iesu wedi maddau bob dim iddynt.

Ad 9. Tangnefeddwyr – pobl sydd yn heddychlon, ddim yn chwilio am ffræ neu wrthdaro drwy'r amser.

Ad 10. Erlidiwyd yn achos cyfiawnder – pobl sy'n fodlon gwneud y peth iawn hyd yn oed os ydy pobl yn bod yn gas iawn efo nhw.

Dydi'r gwynfydau ddim yn dweud y bydd pob Cristion yn cael bywyd hawdd, nac os ydynt yn gwneud pethau da y bydd Duw yn eu gwobrwyo yn syth. Bydd llawer o'r rhain yn dod yn wir pan mae'r Cristion yn cyrraedd y nefoedd, ond mae Duw yn ffyddlon i'w air ac i'w bobl.

## **Gweithgaredd:**

Ysgrifennwch y cymal cyntaf o adnodau 3–10 ar gardiau unigol ac yna'r ail gymal ar gardiau eraill, efallai y byddwch angen mwy nag un set. Rhannwch y dosbarth i mewn i grwpiau a rhoi set cyfan o'r 8 "gwyn eu byd..." ac 8 "oherwydd..." Gofynnwch iddynt baru yr 8 gyda'i gilydd. Bydd hyn yn eu helpu i'w cofio. Wrth fynd drwy'r atebion, gallwch gynnal trafodaeth ynglŷn â beth yw'r rhwystrau i fyw fel yma. Cofiwch na ydy cadw'r gwynfydau yn gwneud rhywun yn Gristion, dim ond rhoi ein ffydd yn Iesu all wneud hynny.

Beth am rhoi sialens i'r dosbarth i ddarllen gweddill penodau 5 – 7 adref yn ystod yr wythnos?

## **Amser i addoli:**

Roedd Iesu wedi byw bywyd perffaith tra ar y ddaear, ni wnaeth unrhyw beth o'i le, roedd yn dilyn ewylllys ei Dad ym mhob dim. Os ydym yn gofyn, bydd Iesu yn maddau i ni am bopeth drwg yr ydym wedi ei wneud ac yn ein helpu ni i fyw bywyd fel y mae'r gwynfydau yn ei ddisgrifio.

Gofynnwch i'r disgyblion ysgrifennu ar ddarn o bapur 'post-it' pa un maent yn teimlo sydd anoddaf i'w gadw, gallent ei gadw'n gyfrinachol. Gweddïwch i Dduw y bydd yn rhoi nerth iddynt i fyw fel y mae Ef yn dymuno. Amen